Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024-25

Medi 2025



**Gallwn ddarparu crynodeb o’r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddeall.**

Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:


Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024-25

yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

# Cynnwys


Rhagair 6

Cefndir 8

Ein rôl 9

Ein huchelgais 9

Ein hegwyddorion 9

Ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau cydraddoldeb 10

Ein Hamcanion Cydraddoldeb 14

Ein Siarter Hil ac Ethnigrwydd yn y Gwaith 15

Ein perfformiad yn 2024-25 16

Amcan 1: Sicrhau ein bod yn cefnogi pobl ag anghenion mynediad ychwanegol i ddefnyddio ein gwasanaeth cwynion. 17

Amcan 2: Helpu i wella ein gwasanaethau a'n heffaith trwy ymgysylltu'n well â grwpiau cydraddoldeb. 19

Amcan 3: Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r swyddfa a'i rôl a'i phwerau ymysg grwpiau targed. 20

Amcan 4: Cynnal a datblygu gwybodaeth fwy hygyrch sy'n esbonio pwy ydym ni a sut rydym yn gweithio. 23

Amcan 5: Trwy ein rôl Safonau Cwynion, ceisio dylanwadu yn gadarnhaol ar hygyrchedd prosesau cwynion lleol. 25

Amcan 6: Gweithio i wella cynrychiolaeth grwpiau targed ledled ein gweithlu. 26

Amcan 7: Parhau i fonitro ein Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a nodi unrhyw gyfleodd i'w leihau ymhellach. 28

**Atodiadau** 30

Atodiad 1: Proffil cydraddoldeb ein hachwynwyr 31

Atodiad 2: Proffil cydraddoldeb ein gweithlu 34

Atodiad 3: Proffil cydraddoldeb ein hymgeiswyr am swyddi 37

Atodiad 4: Dadansoddiad o gyflogau a swyddogaethau yn ôl y rhywiau, mathau o gontractau a threfniadau gweithio 39

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ar ein gwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod 2024-25.

Rydym yn parhau i gyflawni camau gweithredu o dan ein Cynllun Cydraddoldeb.  Mae'r Cynllun yn cyfrannu at gyflawni ein Cynllun Strategol newydd 2023-2026. Nod y Cynllun yw bod yn dargededig, yn seiliedig ar effaith, ac yn canolbwyntio ar feysydd lle gallwn wneud newid a dylanwadu arnynt.

Un o'r straeon cadarnhaol eleni yw bod ymwybyddiaeth o'n swyddfa wedi parhau'n uchel a bod hyder ynom – gan gynnwys ymhlith sawl grŵp cydraddoldeb rydym yn eu monitro – wedi bod yr uchaf erioed. Rydym yn ddiolchgar am yr hyder a roddir ynom gan y cyhoedd yng Nghymru.

Rwyf hefyd yn falch iawn o adrodd bod cyfartaledd a chanolrif ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn negyddol eleni. Er ein bod yn gwybod y gall hyd yn oed ychydig o benodiadau newydd wneud gwahaniaeth mawr mewn sefydliad bach fel ein un ni, rydym yn gweld hyn fel tystiolaeth o'n hymrwymiad i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal a theg.

Yn olaf, rwyf hefyd yn falch iawn ein bod wedi gweld cynnydd mawr eleni yng nghyfran ein staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg. Dim ond chydig iawn o bobl sy'n dal i gwyno wrthym yn y Gymraeg a byddwn yn parhau i weithio i newid hyn, ond gallwn wneud hynny gyda hyder bod gennym yr adnoddau i gynnig y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o'r ansawdd gorau. Eleni, gwnaethom hefyd barhau i godi ymwybyddiaeth o'n swyddfa ymhlith siaradwyr Cymraeg, gyda thua 1000 o bobl yn ymweld â'n stondin yn yr Eisteddol Genedlaethol

Mae mwy o waith i'w wneud. Er i ni ymgymryd â mwy o allgymorth a gweithgarwch cyfathrebu, un o'n heriau allweddol yw ein bod wedi cael trafferth amrywio proffil y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy ailffocysu ein hymdrechion allgymorth a datblygu adnoddau mwy hygyrch am ein gwaith.

Fel bob amser, byddwn yn parhau i gefnogi a hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant ar draws Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi.

**Michelle Morris**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Medi 2025



# Cefndir

# Ein rôl

Mae gennym dair rôl yn bennaf.

Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.

Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru

# Ein huchelgais

Mae pobl Cymru yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu trin yn deg ac yn ymateb pan aiff pethau o chwith.

Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwrando ar unigolion ac yn defnyddio eu cwynion i ddysgu a gwella.

Mae ymddiriedaeth yn llywodraeth leol Cymru i gyflawni'r safonau uchaf o ymddygiad.

Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn llais dylanwadol ac uchel ei barch o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus.

# Ein hegwyddorion

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen arnynt.

# Ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau cydraddoldeb

**Mae'n rhaid i ni gydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal, rydym yn ymrwymo i weithredu yn ysbryd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chefnogi'r Gymraeg.**

## Y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd cydraddoldeb sector gyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), a oedd yn disodli'r dyletswyddau unigol ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhywiol.

O dan y ddyletswydd gyffredinol, mae'n rhaid i ni roi sylw dyledus i'r angen am:

- gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf
- symud cydraddoldeb cyfle ymlaen rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai hynny nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydyn nhw'n rhannu nodwedd warchodedig.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymdrin â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; ailbennu rhywedd; hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu darddiad cenedlaethol, lliw neu genedligrwydd); crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred); beichiogrwydd a mamolaeth; a phriodas a phartneriaeth sifil (ond mewn perthynas yn unig â'r angen i roi sylw dyledus i'r angen i gael gwared â gwahaniaethu).

## Dyletswyddau cydraddoldeb penodol

Nid yw'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yn gyfarwyddol ynglŷn â'r dull y dylai awdurdod lleol ei gymryd er mwyn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.  Yn ogystal, mae gan gyrff rhestredig yng Nghymru ddyletswyddau penodol i'w helpu wrth berfformio'r ddyletswydd gyffredinol.

O dan y dyletswyddau penodol yng Nghymru, mae'n rhaid i ni osod Amcanion Cydraddoldeb a pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

Mae'n rhaid i ni hefyd gasglu a monitro data cydraddoldeb (gan gynnwys mewn perthynas â chyflogaeth a gwahaniaethau mewn cyflogau); asesu effaith ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gydraddoldeb; ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig; darparu hyfforddiant ar gydraddoldeb i staff; ac ystyried cydraddoldeb mewn caffael.

## Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 angen i gyrff cyhoeddus penodedig ystyried sut mae eu penderfyniadau strategol yn gallu helpu i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol, er enghraifft, o wahaniaethau mewn galwedigaeth, cyfleoedd addysgol neu le'r ydych chi'n byw.  Cyfeirir at hyn fel y 'ddyletswydd economaidd-gymdeithasol'.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau ar y Ddyletswydd Economaidd- Gymdeithasol ym mis Mawrth 2022.   Mae'r ddyletswydd angen i gyrff cyhoeddus ystyried sut mae eu penderfyniadau strategol yn gallu helpu i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniad a achoswyd gan anfantais ecomomaidd-gymdeithasol. Penderfyniadau strategol yw'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n effeithio ar sut mae corff cyhoeddus yn cyflawni ei ddiben statudol.  Nid ydym yn rhwym wrth y Ddeddf, rydym yn ymrwymedig i'w hegwyddorion ac rydym eisoes wedi cymryd camau i gryfhau'r ystyriaeth o anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn ein gwaith.

## Y Gymraeg

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chroesawu a'i thrin mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob agwedd o'n gwaith a'n bod yn cwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg.

O dan ein Deddf, mae angen i ni gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Cliciwch yma i weld manylion y Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â nhw ac i ddod o hyd  i'n Polisi'r Gymraeg.

Rhown ragor o fanylion ar ein perfformiad o dan y Safonau yn ystod 2024-25 mewn Adroddiad Safonau'r Gymraeg ar wahân, a gyhoeddwyd ym mis Medi.

## Sut ydym yn rheoli ein Cynllun Cydraddoldeb

Mae gan ein Tîm Rheoli gyfrifoldeb cyffredinol dros gyfeiriad a llywodraethiant strategol y swyddfa ac mae'n sicrhau bod y rheolaeth weithredol yn cydymffurfio â'r holl anghenion cyfreithiol, statudol ac ymarfer da'r canllawiau.  Mae'r Tîm Rheoli yn cael adroddiadau chwarterol ynglŷn â gweithredu'r Cynllun a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gyfrifol am gydlynu'r camau gweithredu o dan y Cynllun; gwerthuso ac adolygu'r Cynllun; paratoi'r adroddiadau cydraddoldeb blynyddol; ynghyd â llunio camau gweithredu newydd. Maent hefyd yn cynorthwyo staff i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg (EIAs).

Mae'r holl staff y pennir cyfrifoldebau iddynt ar gyfer camau gweithredu yn gyfrifol am gwblhau'r camau gweithredu hynny, gyda chynnydd yn cael ei fonitro yn barhaus ar lefel y tîm Mae'r holl staff yn cael gwybodaeth ynglŷn â'r camau gweithredu o dan y Cynllun ac maent yn cael eu hannog i gyfrannu syniadau ac adborth a chyfranogi fel y bo'n berthnasol.

## Sut gwnaethom baratoi'r Adroddiad hwn

Wrth ddatblygu'r Adroddiad hwn, gwnaethom ddefnyddio ein data perfformiad a chydraddoldeb ein hunain am ein defnyddwyr gwasanaeth, staff a phobl sy'n ymgeisio i ymuno â ni.  Dadansoddom y data hwn yng nghyd-destun ystadegau ehangach sydd ar gael drwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol; Llywodraeth Cymru; Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU; a llawer o rai eraill.

Defnyddiasom hefyd y data a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei Adroddiad 2023 'A yw Cymru'n Decach?'  Yn anffodus, ychydig iawn o ymchwil sydd ar gael ar brofiadau gwahanol grwpiau wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac ar eu profiadau o'r system cyfiawnder gweinyddol.

# Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Yn 2023, mabwysiadom ein Cynllun Cydraddoldeb newydd. Ei chenhadaeth yw cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn cyfrannu at bedwar nod ein Cynllun Strategol.

**Nod Strategol 1: Cyflawni cyfiawnder sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus**

Sicrhau ein bod yn cefnogi pobl ag anghenion mynediad ychwanegol i ddefnyddio ein gwasanaeth cwynion.

Helpu i wella ein gwasanaethau a'n heffaith trwy ymgysylltu'n well â grwpiau cydraddoldeb.

**Nod Strategol 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant**

Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r swyddfa a'i rôl a'i phwerau ymysg grwpiau targed.

Cynnal a datblygu gwybodaeth fwy hygyrch sy'n esbonio pwy ydym ni a sut rydym yn gweithio.

**Nod Strategol 3: Cynyddu effaith ein gwaith gwella rhagweithiol**

Trwy ein rôl Safonau Cwynion, ceisio dylanwadu yn gadarnhaol ar hygyrchedd prosesau cwynion lleol.

**Nod Strategol 4: Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol**

Gweithio i wella cynrychiolaeth grwpiau targed ledled ein gweithlu.

Parhau i fonitro ein Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a nodi unrhyw gyfleodd i'w leihau ymhellach.

# Ein Siarter Hil ac Ethnigrwydd yn y Gwaith

Rydym wedi ymrwymo i gryfhau ein cyfraniad at gydraddoldeb, cyfiawnder a chynhwysiant hiliol yng Nghymru. Mae ein Siarter Hil ac Ethnigrwydd yn y Gweithle yn cyd-fynd â'n gweithredoedd cydraddoldeb ehangach, ond mae hefyd yn cynnwys ymrwymiadau ychwanegol a mwy penodol yng nghyswllt ein gwaith i gefnogi cydraddoldeb a chynhwysiant hiliol yn OGCC fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth.

Cliciwch yma i weld rhagor o wybodaeth am y Siarter ar ein gwefan.

# Ein perfformiad yn 2024-25

# Amcan 1: Sicrhau ein bod yn cefnogi pobl ag anghenion mynediad ychwanegol i ddefnyddio ein gwasanaeth cwynion.

## Hygyrchedd

Pob blwyddyn, rydym yn comisiynu ymchwil i wirio beth mae pobl yn meddwl am y gwasanaeth a gawsant gennym. Fel rhan o hynny, rydym am wybod a yw pobl yn cytuno ein bod yn hygyrch.

Eleni, dywedodd 86% o'n hachwynwyr ein bod ni'n hawdd cysylltu â ni. Cododd y ffigur hwn i 95% ar gyfer pobl a oedd yn fodlon â chanlyniad eu cwyn.

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cwyno i ni ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post, gallwn dderbyn cwynion drwy ddulliau sy'n wahanol i ysgrifenedig. Eleni, derbyniom 162 o gwynion llafar, nifer llawer uwch na'r llynedd (103).

Rydym am sicrhau bod pawb a allai fod angen defnyddio'r gwasanaeth hwn yn gwybod amdano. Mae ymchwil ymwybyddiaeth genedlaethol a gomisiynwn yn dangos yn gyson bod tua thri chwarter o'r ymatebwyr yn gwybod y gallwn dderbyn cwynion llafar.

Mae ychydig dros hanner yn gwybod y gallwn dderbyn cwyn drwy Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Mae hyn yn dangos bod lefel yr ymwybyddiaeth o'r opsiwn hwn i gwyno yn gyffredinol dda ond y gellid ei gwella o hyd. Felly, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r pŵer hwn trwy ein gweithgaredd allgymorth a chyfathrebu.



Dywedodd 86% o'n hachwynwyr ein bod ni'n hawdd cysylltu â ni – cyfran uwch na'r llynedd.




Gwnaethom dderbyn dros 160 o gwynion llafar, gan wella mynediad i'n gwasanaethau.

## Cymorth ychwanegol

Pan fydd rhywun yn cysylltu â ni, rydym yn gofyn sut hoffant gyfathrebu â ni: dros y ffôn, e-bost, neu'r post, ac os ydynt angen i ni addasu ein gwasanaeth i ddiwallu eu hanghenion penodol yn well.

Eleni, gofynnodd 157 o bobl am gymorth ychwanegol i ddefnyddio ein gwasanaeth - o'i gymharu â 79 y llynedd.

Dywedodd 83% o'n staff eleni eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent ddarparu ar gyfer ceisiadau am addasiadau rhesymol. Roedd hwn yn gynnydd mawr o 75% y llynedd.



Mae 157 o bobl wedi gofyn am gymorth ychwanegol a chefnogaeth i ddefnyddio ein gwasanaeth.

## Defnyddwyr y Gymraeg

Mae'n bwysig i ni weld cynnydd yn y defnydd o'n gwasanaeth Cymraeg.

Eleni, dim ond 27 o bobl a ofynnodd i ni gyfathrebu â nhw yn y Gymraeg. Rydym yn cydnabod bod hwn yn nifer isel iawn. Mae ein proses gwyno ar gael yn llawn yn y Gymraeg. Awgrymodd ein hymchwil y llynedd y byddai hyd yn oed siaradwyr Cymraeg hyderus yn dewis cwyno yn Saesneg yn gyffredinol. Serch hynny, y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau â'n hymdrechion i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg.

Ychydig iawn o bobl yn defnyddio ein gwasanaeth yn y Gymraeg.

# Amcan 2: Helpu i wella ein gwasanaethau a'n heffaith trwy ymgysylltu'n well â grwpiau cydraddoldeb.

Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ag anghenion mynediad penodol neu gan ein grwpiau targed yn ein helpu i ddeall sut i dargedu ein gwasanaethau yn well a chefnogi pobl i gael mynediad at ein gwasanaethau. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddeall sut maent yn teimlo am ein gwasanaeth a'r rhwystrau y gallent fod yn eu hwynebu.

Ar ôl casglu adborth gan ddefnyddwyr y Gymraeg y llynedd, troesom ein sylw at bobl a allai fod yn profi anfantais gymdeithasol-economaidd.

Dechreuom sgwrs am estyn allan at grwpiau tenantiaid gyda Tai Pawb, sefydliad sydd â'r nod o hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd diffyg capasiti, ni wnaethom fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn ailystyried y prosiect hwn yn ystod 2025-26.

# Amcan 3: Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r swyddfa a'i rôl a'i phwerau ymysg grwpiau targed.

Ein huchelgais o dan yr amcan hwn yw sicrhau bod cymunedau amrywiol yng Nghymru yn gwybod am ein gwasanaeth ac yn deall yr hyn y gallwn ac na allwn ei wneud. Rydym am weld newid ym mhroffil ein hachwynwyr, gyda chymunedau amrywiol yn amlwg yn cael eu cynrychioli'n well.

Nid oes gennym y gallu i gyrraedd pob cymuned yn gyfartal. Rydym yn canolbwyntio ar grwpiau penodol, sydd wedi'u nodi fel blaenoriaethau trwy ein hadolygiad o waith ymchwil a monitro cydraddoldeb.

Yn ystod 202425, y grwpiau hyn o bobl oedd:

- pobl ifanc
- pobl o gefndiroedd ethnig a chenedlaethol amrywiol
- pobl anabl
- siaradwyr Cymraeg
- pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Ymwybyddiaeth o’n gwasanaeth


Rydym yn comisiynu arolwg yn rheolaidd i wirio faint o bobl yng Nghymru sy'n gwybod am ein gwasanaethau. Mae’r arolwg hwn yn seiliedig ar sampl cwota cynrychioliadol, yn cynnwys lleiafswm o 1,000 oedolyn dros 16+ sy’n byw yng Nghymru.

Ym mis Ionawr 2025, dywedodd 48% o’r bobl a holwyd eu bod yn gwybod amdanom ni – dim ond cyfran ychydig yn is na’r llynedd. Yn gadarnhaol, o'n grwpiau targed, dim ond pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol oedd yn llai ymwybodol ohonom.


Roedd hefyd yn gadarnhaol bod hyder yn ein swyddfa wedi parhau'n uchel.

Eleni, dywedodd 79% o’r ymatebwyr fod ganddynt hyder ynom – y gyfran uchaf a gofnodwyd erioed. Fodd bynnag, roedd hyder ychydig yn is ymhlith pobl dros 55 oed neu'n anabl.

Mabwysiadom ddull rhagweithiol o godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth i bobl yn ein grwpiau targed, gan ganolbwyntio ein gwaith allgymorth ar ddigwyddiadau a meysydd lle mae ein cymunedau targed yn cael eu cynrychioli'n arbennig o dda. Mynychom sawl digwyddiad i hyrwyddo ein gwaith, gan gynnwys yr Eisteddfod, y Ffair Iechyd Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a’r Gynhadledd Meistroli Amrywiaeth.




Yn ôl ein hymchwil ymwybyddiaeth genedlaethol, roedd 48% o aelodau'r cyhoedd yng Nghymru yn gwybod amdanom – tua’r un fath â’r llynedd.




Roedd hyder yn ein swyddfa ar y lefel uchaf erioed – ar 79%.

## Cynrychiolaeth o'n grwpiau targed

Gofynnwn i bawb sy'n gwneud cwyn i ni lenwi holiadur cydraddoldeb. Rydym yn darparu amrywiaeth o sianeli i bobl ddychwelyd eu holiaduron wedi'u cwblhau atom. Yn ogystal â gallu llenwi ffurflenni ar-lein neu ar bapur, byddwn hefyd yn ffonio pobl, gyda'u caniatâd, fel y gallant eu llenwi ar lafar hefyd. O ganlyniad, mae gennym gyfradd ddychwelyd gymharol uchel o 44%.

Mae ein data cydraddoldeb yn awgrymu bod pobl anabl, pobl dros 55 oed a phobl o gymunedau LHDTC+ wedi'u cynrychioli'n dda ymhlith ein hachwynwyr.

Fodd bynnag, mae rhai grwpiau eraill yn parhau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- siaradwyr Cymraeg
- pobl ifanc
- pobl o gefndiroedd ethnig a chenedlaethol amrywiol
- pobl yn dilyn crefyddau amrywiol.

Er bod ymwybyddiaeth o'n swyddfa ymhlith y grwpiau hyn yn dda ar y cyfan, byddwn yn parhau â'n hymdrechion i'w chynyddu, yn ogystal â cheisio gwella hygyrchedd ein hadnoddau a'n prosesau.

Gellir gweld proffil cydraddoldeb mwy manwl ein hachwynwyr yn Atodiad 1.

# Amcan 4: Cynnal a datblygu gwybodaeth fwy hygyrch sy’n esbonio pwy ydym ni a sut rydym yn gweithio.

Mae’n hanfodol bod ein sianeli cyfathrebu a’n cynnwys yn hygyrch. Rydym yn teilwra ein deunydd cyfathrebu  i anghenion grwpiau penodol, gan gynnwys cynhyrchu fersiynau Hawdd eu Deall a fideo o'n hadroddiadau allweddol.

## Gwefan

Y llynedd, lansiom ein gwefan newydd, gyda nodweddion ychwanegol i wella hygyrchedd a gwella profiad y defnyddwyr. Mae'r wefan yn parhau i gynnwys teclyn o'r enw bar offer ReachDeck, i gynorthwyo defnyddwyr gyda hygyrchedd gwefan.

Eleni, gwnaethom adolygu ein Datganiad Hygyrchedd. Yn ogystal, ymgymerodd ein Tîm Cyfathrebu â hyfforddiant dwys i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i gwblhau'r holl gamau a gwiriadau hygyrchedd hanfodol ar ffeiliau PDF a gyhoeddwn ar ein gwefan. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi ymrwymo i leihau nifer y ffeiliau PDF ar ein gwefan o 40%, erbyn mis Hydref 2025.

## Cyfryngau cymdeithasol

Rydym yn cynyddu eich dilynwyr yn gyson ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gyfradd ymgysylltu ar LinkedIn wedi bod yn arbennig o gadarnhaol. Fodd bynnag, nid ydym wedi llwyddo i gynnal cyrhaeddiad uchel ein cynnwys Facebook eleni. Rydym yn gwybod bod Facebook yn llwyfan gwell i gyrraedd y demograffig ychydig yn hŷn, ac felly byddwn yn parhau i weithio i wella cyrhaeddiad ein cynnwys Facebook y flwyddyn nesaf.



Mae ein gwefan newydd nawr yn gwbl weithredol ac yn llawer mwy hygyrch.

## Sefydliadau cyngor ac eiriolaeth

Yn ôl ein hymchwil ymwybyddiaeth genedlaethol, clywodd 26% o bobl am ein gwasanaethau ar dafod leferydd. Mae'r ffigur hwn yn codi i 33% gyda phobl ifanc a phobl mewn swyddi â chyflog is. Dyma pam rydym wedi parhau i ymgysylltu, yn ogystal â mynychu digwyddiadau, â chyrff cynghori ac eirioli a sefydliadau porthor eraill, i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith.

Eleni, cymerodd 9 corff cynghori ac eirioli ran mewn hyfforddiant ar-lein am ein pwerau a'n prosesau.

Cynhaliom hefyd ddigwyddiad bwrdd crwn ar gyfer y sefydliadau hyn i gasglu adborth ar ein defnydd o'r pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun.

Mae ein gwefan yn parhau i gynnwys ein cyfeirlyfr o'r cyngor ac eiriolaeth sydd ar gael yng Nghymru. Eleni, cytunodd 64% y gallant gynnig gwybodaeth o ansawdd uchel am y gefnogaeth cyngor ac eiriolaeth sydd ar gael. Dyma'r tro cyntaf i ni ofyn y cwestiwn hwn, a byddwn yn parhau i fonitro'r defnydd a barn staff ar ein hadnoddau cymorth.



Cymerodd 9 corff cynghori ac eirioli ran mewn hyfforddiant ar-lein am ein pwerau a'n prosesau.

# Amcan 5: Trwy ein rôl Safonau Cwynion, ceisio dylanwadu yn gadarnhaol ar hygyrchedd prosesau cwynion lleol.

Rydym am gefnogi dulliau gwell o gasglu a dadansoddi data cydraddoldeb gan sefydliadau o dan ein Safonau Cwynion. Mae hyn nid yn unig yn helpu'r sefydliadau hyn i gefnogi achwynwyr yn well, ond hefyd yn ein helpu i ddeall i ba raddau y mae proffil y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn adlewyrchu proffil y bobl sy'n cwyno am wasanaethau cyhoeddus Cymru.

Yn seiliedig ar ymholiadau cychwynnol i sefydliadau allweddol yn ein hawdurdodaeth, nid oes gan gyrff cyhoeddus ledled Cymru arferion cadarn ar waith i gasglu data cydraddoldeb gan achwynwyr. Codom y mater hwn gyda rhwydwaith Awdurdodau Lleol Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2024.

Byddwn yn gofyn am y wybodaeth hon eto yn 2025-26, i sefydlu a oes unrhyw welliannau wedi'u cyflwyno ers ein hymholiad diwethaf.

Wnaethom hefyd barhau i ddefnyddio dulliau eraill er mwyn gwella hygyrchedd mewn gwasanaethau cyhoeddus. Ym mis Ionawr, cyhoeddom adroddiad thematig 'Mae Cydraddoldeb o Bwys', gan gasglu themâu a phwyntiau dysgu allweddol a amlygwyd yn ein gwaith achos. Roedd y rhain yn cynnwys:

- y diffyg addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion ag anableddau
- heriau sy'n deillio o gyfathrebu yn wael â phobl sydd ag anghenion iaith neu nam ar y synhwyrau
- pryderon am gyrff cyhoeddus sydd wedi methu â threfnu polisïau darparu gwasanaethau â'u dyletswyddau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae'r adroddiad yn gwneud sawl argymhelliad ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar wella cynhwysiant a hygyrchedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

# Amcan 6: Gweithio i wella cynrychiolaeth grwpiau targed ledled ein gweithlu.

Rydym am i'n gweithlu gynrychioli'r cyhoedd yng Nghymru. Er mwyn i ni adlewyrchu'r amrywiaeth mewn cymdeithas, ein nod yw denu mwy o ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol a thargedu pobl o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu.

Fel sefydliad sydd â gweithlu cymharol fach, gall un neu ddau o newidiadau yn nifer y staff effeithio'n sylweddol ar ein data. Mae hyn wedi bod yn wir eleni, pan welwn fod cynrychiolaeth yn rhai o'n grwpiau cydraddoldeb allweddol wedi lleihau.

## Ein staff

Roedd cyfran y bobl yn ein gweithlu a oedd yn uniaethu â chefndiroedd ethnig amrywiol yn 2024-25 yn 5%, cyfran ychydig yn is na'r llynedd. Mae ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 6% yn ôl Cyfrifiad 2021.

Roedd 4% o'n staff yn dynodi eu hunain yn anabl, gostyngiad, o'i gymharu â 6% y llynedd. Roedd hyn yn sylweddol is na chyfran y bobl anabl yng Nghymru.

Dywedodd 12% o'n staff mai Cymraeg oedd eu prif iaith. Roedd hyn yn gynnydd o 8% y llynedd. Mae cyfran y bobl sy'n siarad y Gymraeg yn weddol dda neu'n rhugl hefyd wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Rydym hefyd yn edrych ar gydraddoldeb rhywedd yn ein gweithle. Mae 74% o'n staff presennol yn dynodi eu hunain yn fenywod (o gymharu â 77% y llynedd).

Mae gan ragor o'n staff sgiliau Cymraeg eleni.

## Ymgeiswyr am swyddi

I ni adlewyrchu'r amrywiaeth mewn cymdeithas, ein nod yw denu mwy o ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol.

Rydym yn falch o fod yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal ac wrth recriwtio rydym yn ceisio sicrhau nad ydym ni'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp yn y gymdeithas. Rydym yn casglu data cydraddoldeb gan ymgeiswyr, i weld a oes angen i ni wneud gwelliannau i sicrhau bod ein prosesau'n deg.

Yn gyson, mae menywod, ymhlith ein hymgeiswyr am swyddi a'n staff, yn fwy niferus na dynion o gyrhaeddiad sylweddol.

Yn 2024-25, o'r bobl a wnaeth gais i ymuno â ni:

- Roedd 8% o ethnigrwydd amrywiol – tua'r un faint â'r llynedd
- Dywedodd 8% eu bod yn anabl - tua'r un faint â'r llynedd
- Dywedodd 13% mai Cymraeg oedd eu prif iaith – cyfran llawer uwch na'r llynedd
- Roedd 5% o dan 25 oed – cyfran ychydig yn uwch na'r llynedd.

# Amcan 7: Parhau i fonitro ein Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a nodi unrhyw gyfleodd i'w leihau ymhellach.


Yn unol â thueddiadau yn y blynyddoedd blaenorol, mae merched ymysg ein hymgeiswyr am swyddi a'n gweithlu yn gyson fwy niferus na dynion o drwch sylweddol.

O dan ddyletswyddau penodol yng Nghymru, rhaid i ni edrych ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn ein sefydliad.

Yn 2019, pan wnaethom baratoi ein Cynllun Cydraddoldeb diwethaf, roedd cyfartaledd ein Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn 23% a chanolrif ein Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn 21%.

Eleni, rydym wedi cofnodi bwlch cyflog negyddol rhwng y rhywiau.

I gymharu, mae'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU yn awgrymu, yn 2024, bod y cyfartaledd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU yn 6.9% a'r canolrif yn 4.4%.



Roedd ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn negyddol.

| | Mawrth 2025 | Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| % o staff benywaidd | 77% | 77% |
| Canolrif Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau | -6% | 0% |
| Cyfartaledd y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau | -5% | 8% |

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y tabl hwn yn seiliedig ar hunaniaeth dybiedig o ran rhywedd, fel ei fod yn adlewyrchu'r gweithlu cyfan.



# Atodiadau

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno ein data monitro cydraddoldeb. Cysylltwch â cyfathrebu@ombwdsmon.cymru os oes gennych ddiddordeb mewn gweld dadansoddiad mwy manwl o'r data hwn.

# Atodiad 1: Proffil cydraddoldeb ein hachwynwyr

Mae'r tablau canlynol yn cyflwyno proffil cydraddoldeb ein hachwynwyr yn ystod 2024-25, o'i gymharu â 2023-24. Yn 2024-25, roedd 44% o'n cwynion newydd wedi cynnwys data cydraddoldeb.

| Nodwedd cydraddoldeb | Cynrychiolaeth ymhlith ein hachwynwyr (2024-25) | Cynrychiolaeth ymhlith ein hachwynwyr (2023-24) | Ein dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Oed (o dan 25)** | 3% | 3% | Nid oes gan y grŵp hwn gynrychiolaeth ddigonol o'i gymharu â thua 11% o boblogaeth Cymru sydd rhwng 16 a 24 oed (Ystadegau Cymru). |
| **Oed (dros 55)** | 32% | 36% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn unol â chyfartaledd Cymru o tua 32% o boblogaeth Cymru sy'n 55 oed neu'n hŷn (Cyfrifiad 2021). |
| **Rhywedd (benywaidd)** | 49% | 53% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn unol fras â chyfartaledd Cymru o 51% (Cyfrifiad 2021).. |
| **Cefndiroedd ethnig amrywiol** | 5% | 5% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru o 6% (Cyfrifiad 2021). |

| Nodwedd cydraddoldeb | Cynrychiolaeth ymhlith ein hachwynwyr (2024-25) | Cynrychiolaeth ymhlith ein hachwynwyr (2023-24) | Ein dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Cefndiroedd cenedlaethol amrywiol** | 2% | 3% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn parhau i fod ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 6% o bobl y mae eu hunaniaeth genedlaethol yn wahanol i Gymry, Seisnig, Prydeinig, Albanaidd neu Ogledd Iwerddon a thua 6% a aned y tu allan i'r DU (Cyfrifiad 2021). |
| **Anabledd: oes** | 27% | 31% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 21% (Cyfrifiad 2021). |
| **Anabledd: Wedi'i gyfyngu lawer neu ychydig gan broblem iechyd neu anabledd** | 39% | 44% | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol amrywiol** | 5% | 6% | Roedd cyfran ein hachwynwyr a oedd yn uniaethu â'r grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021 (3%). |
| **Hunaniaeth draws** | 1% | 2% | Roedd cyfran ein hachwynwyr a oedd yn uniaethu â'r grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021 (0.5%). |
| **Crefydd amrywiol** | 3% | 4% | Mae cyfran y bobl a oedd yn uniaethu â chrefyddau amrywiol bellach yn is na chanlyniadau Cyfrifiad 2021 (4%). |

| Nodwedd cydraddoldeb | Cynrychiolaeth ymhlith ein hachwynwyr (2024-25) | Cynrychiolaeth ymhlith ein hachwynwyr (2023-24) | Ein dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Prif iaith: Cymraeg** | 2% | 5% | Nid oes gan y grŵp hwn gynrychiolaeth ddigonol o gymharu â 17.8% o bobl yng Nghymru sy'n ystyried eu hunain yn siaradwr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn hwn fel y'i gofynnir ar hyn o bryd yn ddiffygiol gan nad y Gymraeg yw iaith gyntaf llawer o siaradwyr Cymraeg. |
| **Prif iaith: arall** | 0% | 1% | Mae cynrychiolaeth defnyddwyr ieithoedd eraill yn parhau i fod yn isel iawn, o'i gymharu â 3.3% o boblogaeth Cymru a nododd yn 2021 nad Cymraeg na Saesneg oedd eu prif iaith.. |
| **Priod neu mewn partneriaeth sifil** | 41% | 41% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn unol â chyfartaledd Cymru o 40% (Cyfrifiad 2021). |
| **Cyflogaeth: nid mewn gwaith cyflogedig am reswm arall** | 16% | 16% | Mae cyfran y bobl yn y grŵp hwn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru - yn ôl Llywodraeth Cymru, yn 2024 roedd 24.9% o bobl yng Nghymru rhwng 16 a 64 oed heb waith nac yn chwilio am waith. |
| **Addysg: gradd fel y cymhwyster uchaf** | 42% | 41% | Mae cyfran y bobl yn y grŵp hwn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru – yn ôl Llywodraeth Cymru, yn 2024 roedd gan 46.4% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau Lefel 4+. |

# Atodiad 2: Proffil cydraddoldeb ein gweithlu

Mae monitro cydraddoldeb ein gweithlu yn cael ei gynnal drwy arolwg staff mewnol. Yn 2024-25, cwblhaodd 95% o'n gweithwyr yr arolwg. O'r ddau berson na wnaeth, roedd un ar absenoldeb salwch hirdymor ac roedd un ar secondiad y tu allan i OGCC.

| Nodwedd cydraddoldeb | Cynrychiolaeth ymhlith yr holl staff (2024-25) | Cynrychiolaeth ymhlith yr holl staff (2023-24) | Ein dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Oed (o dan 25)** | 6% | 0% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn wedi gwella'n sylweddol, er ei fod yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o tua 11% o'r boblogaeth sydd rhwng 16 a 24 (Ystadegau Cymru). |
| **Oed (dros 55)** | 15% | 15% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o tua 14% o boblogaeth Cymru sydd rhwng 55 a 65 oed (Cyfrifiad 2021). |
| **Rhywedd (benywaidd)** | 74% | 77% | Roedd cyfran y menywod yn ein gweithlu yn sylweddol uwch na chyfran y grŵp hwn ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru. |
| **Dyletswyddau gofalu (oes)** | 55% | 58% | |
| **Cefndiroedd ethnig amrywiol** | 5% | 6% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn bellach ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 6% (Cyfrifiad 2021). |

| Nodwedd cydraddoldeb | Cynrychiolaeth ymhlith yr holl staff (2024-25) | Cynrychiolaeth ymhlith yr holl staff (2023-24) | Ein dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Cefndiroedd cenedlaethol amrywiol** | 3% | 3% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn parhau i fod ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 6% o bobl y mae eu hunaniaeth genedlaethol yn wahanol i Gymry, Seisnig, Prydeinig, Albanaidd neu Ogledd Iwerddon a thua 6% a aned y tu allan i'r DU (Cyfrifiad 2021). |
| **Anabledd** | 4% | 6% | Mae'r grŵp hwn yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol o ystyried bod 11% o'r boblogaeth yng Nghymru wedi nodi eu bod yn anabl ac yn economaidd weithgar yn 2023. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol amrywiol** | 4% | 4% | Roedd cyfran ein hachwynwyr a oedd yn uniaethu â'r grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021 (3%). |
| **Hunaniaeth draws** | 0% | 0% | Yn ôl Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr, roedd tua 0.5% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd yng Nghymru yn dynodi eu hunain yn drawsryweddol neu'n anneuaidd. Mewn sefydliad bach, nid yw'n annhebygol y bydd neb yn ystyried ei hun yn draws. |
| **Crefydd amrywiol** | 1% | 2% | Mae cyfran y bobl a oedd yn dilyn crefyddau amrywiol wedi gostwng i 1% ac mae bellach yn llawer is na chyfartaledd Cymru o 4%. |

| Nodwedd cydraddoldeb | Cynrychiolaeth ymhlith yr holl staff (2024-25) | Cynrychiolaeth ymhlith yr holl staff (2023-24) | Ein dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Prif iaith: Cymraeg** | 12% | 8% | Cynyddodd cyfran y bobl yn ein gweithlu sydd â'r Gymraeg yn brif iaith iddynt o'i gymharu â'r llynedd. |
| **Sgiliau iaith Gymraeg** | Siarad: 28%<br>Darllen: 27%<br>Ysgrifennu: 26%<br>Deall: 28% | Siarad: 21%<br>Darllen: 24%<br>Ysgrifennu: 21%<br>Deall: 21% | Roedd cyfran y staff gyda sgiliau iaith Gymraeg cymharol dda neu rugl yn llawer uwch na'r llynedd, ond yn is na chyfartaledd Cymru o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 (34%). |
| **Prif iaith: arall** | 1% | 1% | Mae cynrychiolaeth defnyddwyr ieithoedd eraill yn parhau i fod yn isel iawn, o'i gymharu â 3.3% o boblogaeth Cymru a nododd yn 2021 nad Cymraeg na Saesneg oedd eu prif iaith. |
| **Priod neu mewn partneriaeth sifil** | 63% | 63% | Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn fwy na chyfartaledd Cymru o 40% (Cyfrifiad 2021). |

# Atodiad 3: Proffil cydraddoldeb ein hymgeiswyr am swyddi

Ni wnaethom gynnwys dadansoddiad o'r grŵp hwn yn Adroddiad Cydraddoldeb 2023-24.

| Nodwedd cydraddoldeb | Cynrychiolaeth ymhlith ein hymgeiswyr am swyddi (2024-25) | Ein dadansoddiad |
|---|---|---|
| **Oed (o dan 25)** | 5% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o tua 11% o'r boblogaeth sydd rhwng 16 a 24 (Ystadegau Cymru). |
| **Oed (dros 55)** | 10% | Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn is na'r cyfartaledd o tua 14% o boblogaeth Cymru sydd rhwng 55 a 65 oed (Cyfrifiad 2021). |
| **Rhywedd (benyw)** | 58% | Roedd cyfran y menywod ymhlith ein hymgeiswyr am swyddi yn sylweddol uwch na chyfran y grŵp hwn ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru. |
| **Dyletswyddau gofalu (oes)** | 41% | |
| **Cefndiroedd ethnig amrywiol** | 8% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn bellach ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 6% (Cyfrifiad 2021). |
| **Cefndiroedd cenedlaethol amrywiol** | 3% | Mae cynrychiolaeth y grŵp hwn yn parhau i fod ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 6% o bobl y mae eu hunaniaeth genedlaethol yn wahanol i Gymry, Seisnig, Prydeinig, Albanaidd neu Ogledd Iwerddon a thua 6% a aned y tu allan i'r DU (Cyfrifiad 2021). |

| Nodwedd cydraddoldeb | Cynrychiolaeth ymhlith ein hymgeiswyr am swyddi (2024-25) | Ein dadansoddiad |
|---|---|---|
| **Anabledd** | 8% | Mae'r grŵp hwn yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol o ystyried bod 11% o'r boblogaeth yng Nghymru wedi nodi eu bod yn anabl ac yn economaidd weithgar yn 2023. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol amrywiol** | 8% | Roedd cyfran ein hachwynwyr a oedd yn uniaethu â'r grŵp hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021 (3%). |
| **Hunaniaeth draws** | 1% | Yn ôl Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr, roedd tua 0.5% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd yng Nghymru yn dynodi eu hunain yn drawsryweddol neu'n anneuaidd. |
| **Crefydd amrywiol** | 2% | Mae cyfran y bobl a oedd yn dilyn crefyddau amrywiol wedi gostwng i 1% ac mae bellach yn llawer is na chyfartaledd Cymru o 4%. |
| **Prif iaith: Cymraeg** | 13% | Roedd cyfran ein hymgeiswyr am swyddi a ddywedodd mai Cymraeg oedd eu prif iaith yn is na chyfartaledd Cymru (17%). |
| **Sgiliau iaith Gymraeg** | Speaking: 27%<br>Reading: 27%<br>Writing: 26% | Roedd y gyfran oedd â sgiliau iaith Gymraeg cymharol dda neu rugl yn llawer uwch, ond yn is na chyfartaledd Cymru o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 (34%). |
| **Prif iaith: arall** | 1% | Mae cynrychiolaeth defnyddwyr ieithoedd eraill yn parhau i fod yn isel iawn, o'i gymharu â 3.3% o boblogaeth Cymru a nododd yn 2021 nad Cymraeg na Saesneg oedd eu prif iaith. |
| **Priod neu mewn partneriaeth sifil** | 43% | Roedd cynrychiolaeth y grŵp hwn yn fwy na chyfartaledd Cymru o 40% (Cyfrifiad 2021). |

# Atodiad 4: Dadansoddiad o gyflogau a swyddogaethau yn ôl y rhywiau, mathau o gontractau a threfniadau gweithio

Gan fod gennym nifer fawr o raddfeydd, rhai gydag un deiliad swydd, mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad y staff yn ôl y rhywiau, cyflog a swyddogaeth.

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y tabl hwn yn seiliedig ar hunaniaeth dybiedig o ran rhywedd, fel ei fod yn adlewyrchu'r gweithlu cyfan. Nid yw cyfanswm y nifer o weithwyr yn y tabl hwn yn cynnwys yr Ombwdsmon.

| **Rôl:** | **Cyflog (CALI)** | **Gwryw** | **Benyw** | **Cyfanswm** | **% Gwryw** | **% Benyw** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff gweinyddol a rheng flaen | % | 6 | 18 | 24 | 25% | 75% |
| Swyddogion Ymchwilio a Rheolwyr Gwasanaethau Cymorth | £39k - £53k | 7 | 29 | 36 | 19% | 81% |
| Rheolwyr Tîm | £53k - £61k | 3 | 7 | 10 | 30% | 70% |
| Uwch Reolwyr | £61k + | 1 | 3 | 4 | 25% | 75% |
| | Cyfanswm | 17 | 57 | 74 | 23% | 77% |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

Ebost: holwch@ombwdsmon.cymru

Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales